
# Newidiadau i'ch ardrethi annomestig y mae'n rhaid i chi roi gwybod amdanynt

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**O 1 Ebrill 2026, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cyfraith newydd i sicrhau eich bod yn cael biliau mwy cywir ac yn osgoi taliadau annisgwyl.**

Mae'r siart yn dangos faint mae cynghorau Cymru yn ei wario ar wasanaethau, ar gyfartaledd. Mae'n bosib y bydd gwariant eich cyngor chi'n wahanol ar sail anghenion lleol.




Mae ardrethi annomestig, neu ardrethi busnes, yn daliadau ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig fel siopau a safleoedd busnes eraill. Maent yn helpu i ariannu gwasanaethau lleol hanfodol yn eich ardal fel tai, ysgolion, gofal cymdeithasol, yr heddlu a gwasanaethau tân.

Mae'n bwysig bod eich awdurdod lleol yn cael gwybod pan fydd rhai amgylchiadau'n newid, fel bod eich bil yn gywir ac yn cynnwys unrhyw ostyngiadau sy'n berthnasol i chi. Mae'r rhan fwyaf o drethdalwyr eisoes yn gwneud hyn, ond nid pob un. Mae hynny'n gallu arwain at annhegwch.

## Beth sydd angen i mi ei wneud?

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch awdurdod lleol o fewn 60 diwrnod am unrhyw un o'r newidiadau hyn:

- os byddwch yn dod yn drethdalwr ar yr eiddo,
- os yw'r eiddo wedi'i feddiannu erbyn hyn ar ôl bod yn wag, neu
- os nad yw'r eiddo wedi'i feddiannu mwyach (wedi dod yn wag).

Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw e-bostio eich awdurdod lleol gan ddefnyddio'r ddolen ar y cod QR yma:

## Angen help neu wybodaeth?

Mae rhagor o wybodaeth am y gyfraith newydd ar gael yma:

**Gall methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn arwain at ddirwy o £500. Gall darparu gwybodaeth ffug arwain at euogfarn droseddol a dirwy o £1,000.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53248, Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg